# GANOL NOS

*"Ganol nos rhwng môr a mynydd*
*Does 'na fawr o ddim yn digwydd.*
*Ganol nos does dim ond t'wllwch!"*

Ond i mi mae bwrlwm. Gwrandwch!

Dacw lwynog slei'n y goedwig,
Dacw wlithen araf, lithrig,
Dacw ystlum ysgafn, lwglyd,
Dacw lygod bach busneslyd.

Dacw genau bach yn chwara',
Dacw'r gwdi-hŵ yn hela,
Dacw belen bigog brysur,
Dacw neidr werdd ar antur.

Dod y maen nhw i sglaffio pryfaid,
Mentro allan am rhyw damaid,
Dod ar adain chwim a choesau
Fel y gwnaeth eu hen, hen deidiau.

Ganol nos dan awyr dywyll
Creaduriaid sy'n ymgynnull;
Ganol nos rhwng môr a mynydd
Mae 'na ryfeddodau'n digwydd!

*Ysgol Mynytho*
*27 Chwefror 2026*